O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 105

Rheoliadau Tracio Gwastraff yn Ddigidol (Cymru) 2026

Gwnaed	*26 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 105

The Digital Waste Tracking (Wales) Regulations 2026

Made	*26 March 2026*
Coming into force	*1 October 2026*

£14.80

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 105

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Tracio Gwastraff yn Ddigidol (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys yng Nghymru, yn sefydlu system tracio gwastraff yn ddigidol. Fe'u gwneir o dan bwerau a roddir gan adran 34CA a 34CB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43) ("Deddf 1990"). Mae Deddf 1990 yn caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu, yng Nghymru, system tracio gwastraff yn ddigidol, sydd â'r diben o dracio gwastraff a reolir.

Gwastraff a reolir yw gwastraff cartrefi, gwastraff diwydiannol neu wastraff masnachol ac mae iddo yr ystyr a roddir i "controlled waste" yn adran 75(4) i (8) o Ddeddf 1990.

Mae Rhan 2 ac Atodlen 1 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â sefydlu'r system tracio gwastraff yn ddigidol yng Nghymru a gofynion i weithredwyr cyfleuster trwyddedig fewnbynnu gwybodaeth yn y system tracio gwastraff yn ddigidol a thalu ffi flynyddol. Mae'r Rhan honno hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer diffoddiadau (pan na ellir mewnbynnu gwybodaeth yn y system tracio gwastraff yn ddigidol).

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol, gan gynnwys gofynion amgen ar gyfer cofnodi gwybodaeth a fyddai fel arall yn cael ei mewnbynnu yn y system tracio gwastraff yn ddigidol.

Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaeth ynghylch swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Rhan 5 ac Atodlen 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau a sancsiynau sifil.

Mae Rhan 6 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag apelau.

Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau atodol gan gynnwys mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru at y system tracio gwastraff yn ddigidol a phwy y caniateir rhannu gwybodaeth a ddelir o dan y Rheoliadau hyn â hwy.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 105

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Tracio Gwastraff yn Ddigidol (Cymru) 2026

Gwnaed *26 Mawrth 2026*

Yn dod i rym *1 Hydref 2026*

CYNNWYS

RHAN 1
Cyffredinol
1. Enwi, dod i rym, rhychwant a chymhwyso
2. Dehongli
RHAN 2
Y System Tracio Gwastraff yn Ddigidol
3. Y person dynodedig a'r system tracio gwastraff yn ddigidol
4. Mewnbynnu gwybodaeth benodedig yn y system tracio gwastraff yn ddigidol gan weithredwr cyfleuster trwyddedig
5. Ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol
6. Diffoddiad yn rhwystro mewnbynnu gwybodaeth benodedig
7. Cywiro cofnod digidol o wastraff
RHAN 3
Personau sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol
8. Cofnod ysgrifenedig o wybodaeth benodedig gan weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol ar gyfleuster trwyddedig
9. Cais am rif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol
10. Peidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol
11. Rhestr o bersonau sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol
12. Cadw cofnodion ysgrifenedig a'u rhoi ar gael gan weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol
RHAN 4
Monitro
13. Swyddogaethau monitro
14. Cofnodi gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru
RHAN 5
Troseddau a Sancsiynau Sifil
Pennod 1
Cyffredinol
15. Dehongli

Pennod 2

Troseddau

16. Troseddau
17. Troseddau: atodol
18. Cosbau am droseddau

Pennod 3

Sancsiynau Sifil

19. Sancsiynau sifil
20. Hysbysiadau adennill cost gorfodaeth
21. Talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru
22. Tynnu hysbysiad yn ôl neu ddiwygio hysbysiad

Pennod 4

Cofrestr gyhoeddus

23. Cofrestr o gamau gorfodi
24. Euogfarnau wedi eu disbyddu gan unigolion

RHAN 6

Apelau

25. Y weithdrefn ar apêl
26. Statws wrth aros am apêl
27. Dyfarnu apelau

RHAN 7

Darpariaeth atodol

28. Mynediad at wybodaeth
29. Rhannu gwybodaeth

ATODLENNI

ATODLEN 1 — Gwybodaeth benodedig
RHAN 1 — Dehongli
RHAN 2 — Gwybodaeth benodedig
ATODLEN 2 — Sancsiynau sifil
RHAN 1 — Cosbau ariannol penodedig
RHAN 2 — Cosbau ariannol amrywiadwy
RHAN 3 — Hysbysiadau cydymffurfio

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 34CA(1), (2), (4), (6), (7), (8), (9) a (10) a 34CB(1), (2), (3), (5), (6) a (7) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 160A(5)(b) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 1990 p. 43. Mewnosodwyd adrannau 34CA a 34CB gan adran 58(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym, rhychwant a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tracio Gwastraff yn Ddigidol (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2026.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod gwaredu gwastraff" ("*waste disposal authority*") yw, ar gyfer unrhyw sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol;

mae i "camau penodedig" ("*specified steps*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(4);

ystyr "cofnod digidol o wastraff" ("*digital waste record*") yw cofnod electronig a grëir gan ddefnyddio meddalwedd a gymeradwywyd;

mae i "cyfleuster rheoleiddiedig" yr ystyr a roddir i "regulated facility" yn rheoliad 8 o Reoliadau 2016;

ystyr "cyfleuster trwyddedig" ("*permitted facility*") yw cyfleuster rheoleiddiedig lle y mae gweithrediad gwastraff yn cael ei gyflawni;

ystyr "chwarter" ("*quarter*") yw unrhyw gyfnod o 3 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;

ystyr "diwedd y chwarter" ("*end of the quarter*") yw un o'r diwrnodau a ganlyn, sef diwedd chwarter—

(a) 31 Mawrth,

(b) 30 Mehefin,

(c) 30 Medi, neu

(d) 31 Rhagfyr;

ystyr "ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol" ("*digital waste tracking system fee*") yw'r ffi flynyddol sy'n daladwy o dan reoliad 5;

mae i "gwastraff a reolir" yr ystyr a roddir i "controlled waste" yn adran 75(4) o Ddeddf 1990;

ystyr "gwastraff a reolir sy'n beryglus" ("*hazardous controlled waste*") yw gwastraff a reolir sydd hefyd yn wastraff peryglus;

mae i "gwastraff cartrefi" yr ystyr a roddir i "household waste" yn adran 75(5) o Ddeddf 1990;

mae i “gwastraff peryglus” yr ystyr a roddir i “hazardous waste” yn adran 75(8B) o Ddeddf 1990(**2**);

mae i “gweithrediad gwastraff” yr ystyr a roddir i “waste operation” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2016;

ystyr “gweithredwr cyfleuster trwyddedig” (“*operator of a permitted facility*”) yw'r person sydd wedi ei awdurdodi o dan drwydded amgylcheddol i weithredu cyfleuster trwyddedig;

mae i “gwybodaeth benodedig” (“*specified information*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(5)(a);

mae i “hysbysiad adennill cost gorfodaeth” (“*enforcement cost recovery notice*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 20(1);

ystyr “meddalwedd a gymeradwywyd” (“*approved software*”) yw meddalwedd sydd wedi ei chymeradwyo gan y person dynodedig o dan reoliad 3(3);

ystyr “nodyn traddodi” (“*consignment note*”) yw'r ddogfen a nodir yn Atodlen 4(**3**) (ffurf nodyn traddodi) i Reoliadau 2005;

ystyr “person dynodedig” (“*designated person*”) yw Gweinidogion Cymru;

ystyr “person sydd wedi ei allgáu'n ddigidol” (“*digitally excluded person*”) yw person—

(a) sy'n aelod o gymdeithas grefyddol neu urdd grefyddol ac yn arfer y grefydd honno, y mae ei chredoau'n anghydnaws â defnyddio cyfathrebiadau electronig neu gadw cofnodion electronig, neu

(b) nad yw'n rhesymol ymarferol iddo ddefnyddio cyfathrebiadau electronig neu gadw cofnodion electronig am unrhyw reswm (gan gynnwys oedran, anabledd neu leoliad);

ystyr “Rheoliadau 2005” (“*the 2005 Regulations*”) yw Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(**4**);

ystyr “Rheoliadau 2016” (“*the 2016 Regulations*”) yw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(**5**);

ystyr “rhif cofnod digidol o wastraff” (“*digital waste record number*”) yw rhif adnabod unigryw a aseinir i gofnod digidol o wastraff;

ystyr “rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol” (“*digitally excluded operator number*”) yw'r rhif adnabod unigryw a aseinir i weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol gan—

(a) Cyfoeth Naturiol Cymru o dan reoliad 9(2)(a),

(b) Asiantaeth yr Amgylchedd o dan unrhyw ddarpariaeth a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 34CA(6) o Ddeddf 1990,

(c) yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon o dan unrhyw ddarpariaeth a wneir gan yr Adran honno o dan

(**2**) Mewnosodwyd is-adran (8B) yn Neddf 1990 gan adran 60(3) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30).
(**3**) Amnewidiwyd y ffurflen yn Atodlen 4 gan O.S. 2011/971 (Cy. 141).
(**4**) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2016/1154, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/110; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

erthygl 5G(6) o Orchymyn Gwastraff a Thir Halogedig (Gogledd Iwerddon) 1997(**6**), neu

(d) Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban o dan unrhyw ddarpariaeth a wneir gan Weinidogion yr Alban o dan adran 34CA(6) o Ddeddf 1990;

mae i "system tracio gwastraff yn ddigidol" ("*digital waste tracking system*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3(2);

mae i "trwydded amgylcheddol" yr ystyr a roddir i "environmental permit" yn rheoliad 13(1) o Reoliadau 2016.

RHAN 2

Y System Tracio Gwastraff yn Ddigidol

Y person dynodedig a'r system tracio gwastraff yn ddigidol

3.—(1) Mae Gweinidogion Cymru ("y person dynodedig") wedi eu dynodi at ddibenion adran 34CA(7) o Ddeddf 1990.

(2) Rhaid i'r person dynodedig sefydlu, cynnal a gweithredu system electronig i dracio gwastraff a reolir ("y system tracio gwastraff yn ddigidol").

(3) Mae swyddogaethau'r person dynodedig mewn perthynas â'r system tracio gwastraff yn ddigidol yn cynnwys cymeradwyo meddalwedd (ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny).

(4) Rhaid i'r person dynodedig sicrhau—

(a) bod rhif cofnod digidol o wastraff yn cael ei aseinio i gofnod digidol o wastraff pan fydd gwybodaeth benodedig yn y cofnod digidol o wastraff yn cael ei mewnbynnu yn y system tracio gwastraff yn ddigidol, a

(b) bod y rhif cofnod digidol o wastraff yn cael ei anfon at y gweithredwr cyfleuster trwyddedig a gofnododd yr wybodaeth benodedig yn y cofnod digidol o wastraff cyn gynted â phosibl ar ôl i'r rhif cofnod digidol o wastraff gael ei aseinio.

(5) Caiff y person dynodedig wrthod mewnbynnu'r wybodaeth benodedig yn y system tracio gwastraff yn ddigidol os nad yw ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol wedi ei thalu.

Mewnbynnu gwybodaeth benodedig yn y system tracio gwastraff yn ddigidol gan weithredwr cyfleuster trwyddedig

4.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan ddaw gwastraff a reolir i law gweithredwr cyfleuster trwyddedig mewn cyfleuster trwyddedig.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys os yw'r cyfleuster trwyddedig yn fan a ddarperir o dan drefniadau a wneir gan awdurdod gwaredu gwastraff o dan adran 51(1)(b)(**7**) o Ddeddf 1990 ac—

(a) bod gwastraff cartrefi yn cael ei ddyddodi gan berson sy'n preswylio yn ardal yr awdurdod gwaredu gwastraff(**8**), neu

---

(**6**) O.S. 1997/2778 (G.I. 19). Mewnosodwyd erthygl 5G gan adran 59(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30).
(**7**) Diwygiwyd adran 51(1) gan Ran 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p. 16).
(**8**) Ardal awdurdod gwaredu gwastraff yw ardal yr awdurdod lleol sy'n ffurfio'r awdurdod gwaredu gwastraff hwnnw. Gellir dod o hyd i fapiau o ffiniau awdurdodau lleol ar wefan Porth Daearyddiaeth Agored y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn https://geoportal.statistics.gov.uk/search?q=Administrative%20Maps.

(b) bod y cyfleuster trwyddedig ar gael ar gyfer dyddodi gwastraff cartrefi neu wastraff a reolir arall gan bersonau eraill o dan adran 51(3) o Ddeddf 1990.

(3) Rhaid i weithredwr cyfleuster trwyddedig dalu ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol o dan reoliad 5.

(4) Rhaid i weithredwr cyfleuster trwyddedig gymryd y camau penodedig a nodir ym mharagraff (5) ar gyfer pob llwyth o wastraff a reolir sy'n dod i law yn y cyfleuster trwyddedig erbyn y dyddiad cau a nodir ym mharagraff (9).

(5) Y camau penodedig yw—

(a) cofnodi mewn cofnod digidol o wastraff yr wybodaeth a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1 ("gwybodaeth benodedig"), a

(b) gwirio bod yr wybodaeth benodedig yn y cofnod digidol o wastraff wedi ei mewnbynnu yn y system tracio gwastraff yn ddigidol.

(6) Mae'r gofyniad i wirio ym mharagraff 5(b) wedi ei fodloni os daw'r rhif cofnod digidol o wastraff i law'r gweithredwr o dan reoliad 3(4)(b).

(7) Nid yw'r gofyniad i wirio ym mharagraff 5(b) wedi ei fodloni os nad yw'r rhif cofnod digidol o wastraff wedi dod i law'r gweithredwr o ganlyniad i fethiant gan y gweithredwr i—

(a) talu ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol, neu

(b) ar ôl cael neges ddigidol yn nodi gwall, ymchwilio i unrhyw wall gyda'r cofnod digidol o wastraff neu unrhyw wall neu hepgoriad yn yr wybodaeth benodedig a gofnodir yn y cofnod digidol o wastraff hwnnw a chywiro'r gwall neu'r hepgoriad hwnnw.

(8) Ym mharagraff (4)—

(a) pan fo'r gwastraff a reolir wedi ei gyfansoddi o wastraff a reolir sy'n beryglus sy'n mynd gyda mwy nag un nodyn traddodi a gwblhawyd o dan reoliad 36 (y weithdrefn safonol) o Reoliadau 2005, mae'r gwastraff a reolir sy'n beryglus y mae pob nodyn traddodi yn ymwneud ag ef i'w drin fel un llwyth;

(b) pan fo'r gwastraff a reolir wedi ei gyfansoddi o wastraff a reolir sy'n beryglus a draddodir i'r cyfleuster trwyddedig drwy biblinell o dan nodyn traddodi a gwblhawyd o dan reoliad 41 (symud gwastraff drwy biblinell) o Reoliadau 2005, mae'r gwastraff a reolir sy'n beryglus y mae pob nodyn traddodi yn ymwneud ag ef i'w drin fel un llwyth.

(9) Rhaid i weithredwr cyfleuster trwyddedig gymryd pob cam rhesymol i sicrhau cwblhau'r camau penodedig erbyn diwedd yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y daw'r llwyth o wastraff a reolir neu wastraff a reolir sy'n beryglus i law'r gweithredwr.

(10) Ond pan fo'r llwyth o wastraff a reolir sy'n beryglus yn cael ei draddodi drwy biblinell, y diwrnod dod i law yw—

(a) os yw'r llwyth yn cael ei bibellu dros gyfnod o fwy nag un diwrnod, y diwrnod y daw'r rhan olaf o'r llwyth a bibellir i law;

(b) os yw'r llwyth yn cael ei bibellu'n barhaus—

(i) y diwrnod a gofnodir yn y nodyn traddodi sy'n ymwneud â'r llwyth hwnnw fel diwedd y chwarter, neu

(ii) pan fo'r pibellu yn dod i ben cyn y diwrnod a gofnodir yn y nodyn traddodi sy'n ymwneud â'r llwyth hwnnw fel diwedd y chwarter, y diwrnod y mae'r pibellu yn dod i ben.

Ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol

5.—(1) Ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol yw £26.

(2) Rhaid talu'r ffi i'r person dynodedig pan fydd y rhwymedigaeth i gydymffurfio â'r camau penodedig o dan reoliad 4(4) yn codi am y tro cyntaf ac yna'n flynyddol, ar yr un dyddiad â phan gododd y rhwymedigaeth am y tro cyntaf, ar gyfer pob blwyddyn ddilynol y mae'n ofynnol i'r gweithredwr gydymffurfio â'r rhwymedigaeth yn rheoliad 4(4) ynddi.

Diffoddiad yn rhwystro mewnbynnu gwybodaeth benodedig

6.—(1) Os bydd diffoddiad, rhaid i weithredwr cyfleuster trwyddedig ddilyn y camau ym mharagraff (2).

(2) Y camau yw—

(a) oni bai bod hysbysiad o ddiffoddiad wedi dod i law'r gweithredwr, hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am y diffoddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;

(b) gwneud cofnod ysgrifenedig o'r wybodaeth benodedig erbyn y dyddiad cau a bennir yn rheoliad 4(9);

(c) o fewn 7 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y datrysir y diffoddiad, mewnbynnu'r wybodaeth benodedig a gofnodwyd o dan is-baragraff (b) yn y system tracio gwastraff yn ddigidol yn unol â'r camau penodedig.

(3) Mewn perthynas â gweithredwr cyfleuster trwyddedig—

(a) caiff wneud y cofnod ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(b) ar ffurf electronig os yw'r gweithredwr yn gallu arbed y cofnod mewn modd y gellir dod o hyd iddo a'i adalw'n hawdd,

(b) rhaid iddo, hyd nes y bydd y cam a ddisgrifir ym mharagraff (2)(c) wedi ei gwblhau—

(i) cadw'r cofnod ysgrifenedig a wnaed o dan baragraff (2)(b), a

(ii) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi'r cofnod ysgrifenedig ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "diffoddiad" ("*outage*") yw amgylchiadau a achosir gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth gweithredwr y cyfleuster trwyddedig sy'n rhwystro mewnbynnu'r wybodaeth benodedig yn y system tracio gwastraff yn ddigidol erbyn y dyddiad cau a bennir yn rheoliad 4(9);

ystyr "hysbysiad o ddiffoddiad" ("*outage notification*") yw cyfathrebiad yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr y system tracio gwastraff yn ddigidol nad yw'r system ar gael.

Cywiro cofnod digidol o wastraff

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) gweithredwr cyfleuster trwyddedig wedi gwneud gwall mewn cofnod digidol o wastraff, a

(b) o ganlyniad i'r gwall hwnnw, wybodaeth anghywir am wastraff a reolir yn cael ei mewnbynnu yn y system tracio gwastraff yn ddigidol.

(2) Rhaid i weithredwr cyfleuster trwyddedig sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei mewnbynnu yn y system tracio gwastraff yn ddigidol yn unol â'r camau penodedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a, pha un bynnag, o fewn un mis i'r dyddiad y daw'r gweithredwr yn ymwybodol o'r gwall.

RHAN 3

Personau sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol

Cofnod ysgrifenedig o wybodaeth benodedig gan weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol ar gyfleuster trwyddedig

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fydd—

(a) gweithredwr cyfleuster trwyddedig yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol ("gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol"), a

(b) gwastraff a reolir yn dod i law'r gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol yn y cyfleuster trwyddedig.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r cyfleuster trwyddedig yn fan a ddarperir o dan drefniadau a wneir gan awdurdod gwaredu gwastraff o dan adran 51(1)(b) o Ddeddf 1990 ac—

(a) bod gwastraff cartrefi yn cael ei ddyddodi gan berson sy'n preswylio yn ardal yr awdurdod gwaredu gwastraff, neu

(b) bod y cyfleuster trwyddedig ar gael ar gyfer dyddodi gwastraff cartrefi neu wastraff a reolir arall gan bersonau eraill o dan adran 51(3) o Ddeddf 1990.

(3) Mewn perthynas â'r gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol—

(a) mae'n esempt rhag y gofynion yn rheoliadau 4 i 7;

(b) rhaid iddo—

(i) gwneud cofnod ysgrifenedig o'r wybodaeth benodedig mewn cysylltiad â phob llwyth o wastraff a reolir sy'n dod i law yn y cyfleuster trwyddedig erbyn y dyddiad cau a nodir ym mharagraff (5),

(ii) cynnwys yn y cofnod ysgrifenedig ei rif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol, a

(iii) cadw'r cofnod ysgrifenedig a'i roi ar gael o dan reoliad 12.

(4) Ym mharagraff (3)(b)(i)—

(a) pan fo'r gwastraff a reolir wedi ei gyfansoddi o wastraff a reolir sy'n beryglus sy'n mynd gyda mwy nag un nodyn traddodi a gwblhawyd o dan reoliad 36 (y weithdrefn safonol) o Reoliadau 2005, mae'r gwastraff a reolir sy'n beryglus y mae pob nodyn traddodi yn ymwneud ag ef i'w drin fel un llwyth;

(b) pan fo'r gwastraff a reolir wedi ei gyfansoddi o wastraff a reolir sy'n beryglus a draddodir i'r cyfleuster trwyddedig drwy biblinell o dan nodyn traddodi a gwblhawyd o dan reoliad 41 (symud gwastraff drwy biblinell) o Reoliadau 2005, mae'r gwastraff a reolir sy'n beryglus y mae pob nodyn traddodi yn ymwneud ag ef i'w drin fel un llwyth.

(5) Ym mharagraff (3)(b)(i), y dyddiad cau ar gyfer gwneud y cofnod ysgrifenedig yw 2 ddiwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y daw'r llwyth o wastraff a reolir neu wastraff a reolir sy'n beryglus i law'r gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol.

(6) Ond pan fo'r llwyth o wastraff a reolir sy'n beryglus yn cael ei draddodi drwy biblinell, y diwrnod dod i law yw—

(a) os yw'r llwyth yn cael ei bibellu dros gyfnod o fwy nag un diwrnod, y diwrnod y daw'r rhan olaf o'r llwyth a bibellir i law;

(b) os yw'r llwyth yn cael ei bibellu'n barhaus—

(i) y diwrnod a gofnodir yn y nodyn traddodi sy'n ymwneud â'r llwyth hwnnw fel diwedd y chwarter, neu

(ii) pan fo'r pibellu yn dod i ben cyn y diwrnod a gofnodir yn y nodyn traddodi sy'n ymwneud â'r llwyth hwnnw fel diwedd y chwarter, y diwrnod y mae'r pibellu yn dod i ben.

Cais am rif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol

9.—(1) Rhaid i weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol y mae ei brif fan busnes yng Nghymru wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am rif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol.

(2) Ar ôl cael cais o dan baragraff (1), rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru—

(a) aseinio rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol i'r ceisydd, a

(b) rhoi gwybod i'r ceisydd am y rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol.

Peidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol

10.—(1) Os aseinir rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol i weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol o dan reoliad 9(2)(a) a'i fod yn peidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol, rhaid i'r gweithredwr hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith i Cyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r gweithredwr beidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol.

(3) Mae gweithredwr sy'n rhoi hysbysiad—

(a) yn parhau i fod, am 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad—

(i) yn esempt rhag y gofynion yn rheoliadau 4 i 7, a

(ii) yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliad 8(3)(b);

(b) ar ôl 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad, yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliadau 4 i 7.

Rhestr o bersonau sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol

11. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru—

(a) cynnal rhestr o weithredwyr sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi aseinio rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol iddynt o dan reoliad 9(2)(a);

(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r 28 o ddiwrnodau y cyfeirir atynt yn rheoliad 10(3)(b) ddod i ben, dynnu oddi ar y rhestr unrhyw berson sydd wedi peidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol.

Cadw cofnodion ysgrifenedig a'u rhoi ar gael gan weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol

12. Rhaid i weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol, mewn cysylltiad â chofnod ysgrifenedig o dan reoliad 8(3)(b)(i)—

(a) cadw'r cofnod ysgrifenedig am o leiaf 3 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y gwneir y cofnod;

(b) os yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn amdano, roi'r cofnod ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

RHAN 4

Monitro

Swyddogaethau monitro

13. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru fonitro cydymffurfedd â'r Rheoliadau hyn.

Cofnodi gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru

14. Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru fewnbynnu unrhyw wybodaeth a gynhwysir mewn cofnod ysgrifenedig neu a roddir ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ran 2 neu 3 yn y system tracio gwastraff yn ddigidol.

RHAN 5

Troseddau a Sancsiynau Sifil

Pennod 1

Cyffredinol

Dehongli

15. Yn y Rhan hon ac yn Atodlen 2—

mae i "cofrestr gyhoeddus" ("*public register*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 23(1);

ystyr "cosb ariannol amrywiadwy" ("*variable monetary penalty*") yw cosb o'r swm hwnnw a ddyfernir gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ran 2 o Atodlen 2;

ystyr "cosb ariannol benodedig" ("*fixed monetary penalty*") yw cosb ariannol benodedig sy'n ofyniad i dalu cosb i Cyfoeth Naturiol Cymru, sef y swm a bennir ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2;

ystyr "hysbysiad cydymffurfio" ("*compliance notice*") yw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd y camau hynny a bennir yn yr hysbysiad, o fewn yr amser hwnnw a bennir yn yr hysbysiad, er mwyn sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau neu nad yw'n digwydd eto;

ystyr "sancsiwn sifil" ("*civil sanction*") yw cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad cydymffurfio.

Pennod 2

Troseddau

Troseddau

16.—(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2) yn euog o drosedd.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) rheoliad 4(4) (cymryd camau penodedig erbyn y dyddiad cau penodedig);

(b) rheoliad 6(2)(a) (hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am ddiffoddiad);

(c) rheoliad 6(2)(b) (cofnod ysgrifenedig o wybodaeth benodedig yn ystod diffoddiad);

(d) rheoliad 6(2)(c) (mewnbynnu gwybodaeth benodedig yn y system tracio gwastraff yn ddigidol);

(e) rheoliad 6(3)(b) (cadw cofnod ysgrifenedig o ddiffoddiad a'i roi ar gael);

(f) rheoliad 7(2) (cywiriadau);

(g) rheoliad 8(3)(b)(i) (cofnod ysgrifenedig gan weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(h) rheoliad 8(3)(b)(ii) (cofnodi rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol mewn cofnod ysgrifenedig);

(i) rheoliad 9(1) (cais am rif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(j) rheoliad 10(1) (hysbysiad o beidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(k) rheoliad 10(2) (dyddiad cau ar gyfer darparu hysbysiad ar ôl peidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(l) rheoliad 12 (cadw cofnod ysgrifenedig a'i roi ar gael).

(3) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio a osodir o dan Ran 3 o Atodlen 2 yn euog o drosedd.

Troseddau: atodol

17.—(1) Pan—

(a) bo trosedd o dan y Rheoliadau hyn wedi ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, a

(b) profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(i) unigolyn perthnasol, neu

(ii) unigolyn sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unigolyn perthnasol,

mae'r unigolyn hwnnw yn ogystal â'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig yn cyflawni trosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "unigolyn perthnasol" yw—

(a) mewn perthynas â chorff corfforedig—

(i) cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn unrhyw rinwedd o'r fath;

(ii) pan fo materion y corff yn cael eu rheoli gan ei aelodau, aelod;

(b) mewn perthynas â phartneriaeth, partner;

(c) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig, person sy'n ymwneud â rheoli neu reolaeth y gymdeithas.

Cosbau am droseddau

18. Mae trosedd o dan reoliad 16 neu 17 i'w chosbi—

(a) ar euogfarn ar dditiad, drwy ddirwy;

(b) ar euogfarn ddiannod, drwy ddirwy.

Pennod 3

Sancsiynau Sifil

Sancsiynau sifil

19.—(1) Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd fod person wedi torri gofyniad a bennir ym mharagraff (2) ("gofyniad perthnasol"), caiff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy hysbysiad, mewn perthynas â'r toriad hwnnw, osod ar y person hwnnw—

(a) cosb ariannol benodedig o dan Ran 1 o Atodlen 2,

(b) cosb ariannol amrywiadwy o dan Ran 2 o Atodlen 2, neu

(c) hysbysiad cydymffurfio o dan Ran 3 o Atodlen 2.

(2) Y gofynion yw—

(a) rheoliad 4(4) (cymryd camau penodedig erbyn y dyddiad cau penodedig);

(b) rheoliad 6(2)(a) (hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am ddiffoddiad);

(c) rheoliad 6(2)(b) (cofnod ysgrifenedig o wybodaeth benodedig yn ystod diffoddiad);

(d) rheoliad 6(2)(c) (mewnbynnu gwybodaeth benodedig yn y system tracio gwastraff yn ddigidol);

(e) rheoliad 6(3)(b) (cadw cofnod ysgrifenedig o ddiffoddiad a'i roi ar gael);

(f) rheoliad 7(2) (cywiriadau);

(g) rheoliad 8(3)(b)(i) (cofnod ysgrifenedig gan weithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(h) rheoliad 8(3)(b)(ii) (cofnodi rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol mewn cofnod ysgrifenedig);

(i) rheoliad 9(1) (cais am rif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(j) rheoliad 10(1) (hysbysiad o beidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(k) rheoliad 10(2) (dyddiad cau ar gyfer darparu hysbysiad ar ôl peidio â bod yn berson sydd wedi ei allgáu'n ddigidol);

(l) rheoliad 12 (cadw cofnod ysgrifenedig a'i roi ar gael).

(3) Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd—

(a) bod gofyniad perthnasol wedi ei dorri gan gorff corfforedig, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, a

(b) bod y toriad wedi digwydd gyda chydsyniad neu ymoddefiad, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(i) unigolyn perthnasol, neu

(ii) unigolyn sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unigolyn perthnasol,

caiff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy hysbysiad osod sancsiwn sifil a bennir ym mharagraff (1) ar yr unigolyn hwnnw yn ogystal â'r corff corfforedig, y bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig.

(4) Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei fodloni, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod gofyniad perthnasol neu waharddiad wedi ei dorri gan berson o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gan ryw berson arall, caiff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy hysbysiad osod sancsiwn sifil ar y person arall hwnnw, pa un a yw sancsiwn yn cael ei osod ar y person a grybwyllir gyntaf ai peidio.

(5) Caiff person y gosodwyd sancsiwn sifil arno o dan y rheoliad hwn apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn unol â'r weithdrefn yn rheoliad 25.

(6) Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru adennill cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol amrywiadwy—

(a) fel dyled sifil, neu

(b) ar orchymyn gan lys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "unigolyn perthnasol" yw—

(a) mewn perthynas â chorff corfforedig—

(i) cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn unrhyw rinwedd o'r fath;

(ii) pan fo materion y corff yn cael eu rheoli gan ei aelodau, aelod;

(b) mewn perthynas â phartneriaeth, partner;

(c) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig, person sy'n ymwneud â rheoli neu reolaeth y gymdeithas.

Hysbysiadau adennill cost gorfodaeth

20.—(1) Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad adennill cost gorfodaeth") i berson y cyflwynwyd iddo hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy o dan Ran 2 o Atodlen 2, neu hysbysiad cydymffurfio o dan Ran 3 o Atodlen 2, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw dalu'r costau yr aed iddynt gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gosod yr hysbysiad hwnnw hyd at yr adeg y'i gosodir.

(2) Mae costau yn cynnwys yn benodol—

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(3) Rhaid i'r hysbysiad adennill cost gorfodaeth bennu—

(a) y sail dros osod yr hysbysiad,

(b) y swm y mae'n ofynnol ei dalu,

(c) sut y mae taliad i'w wneud,

(d) y cyfnod y mae rhaid talu ynddo, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad,

(e) yr hawl i apelio, ac

(f) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig.

(4) Caiff y person y cyflwynir yr hysbysiad adennill cost gorfodaeth iddo ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu dadansoddiad manwl o'r swm.

(5) Nid yw'r person y mae'n ofynnol iddo dalu costau yn agored i dalu'r gyfran o'r costau hynny y mae'r person hwnnw'n dangos yr aed iddynt yn ddiangen.

(6) Caiff y person y mae'n ofynnol iddo dalu costau apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn unol â'r weithdrefn yn rheoliad 25 yn erbyn—

(a) penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i osod y gofyniad i dalu costau, neu

(b) penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru o ran swm y costau hynny.

(7) Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru adennill unrhyw gostau y mae'n ofynnol eu talu o dan hysbysiad adennill cost gorfodaeth—

(a) fel dyled sifil, neu

(b) ar orchymyn gan lys, fel pe baent yn daladwy o dan orchymyn llys.

Talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru

21. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru dalu unrhyw gosb sy'n dod i'w law o dan y Rhan hon i Gronfa Gyfunol Cymru.

Tynnu hysbysiad yn ôl neu ddiwygio hysbysiad

22. Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig—

(a) tynnu hysbysiad cosb ariannol benodedig yn ôl;

(b) tynnu hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy yn ôl;

(c) tynnu hysbysiad adennill cost gorfodaeth yn ôl;

(d) lleihau'r swm a bennir mewn hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad adennill cost gorfodaeth;

(e) tynnu hysbysiad cydymffurfio yn ôl;

(f) diwygio'r camau a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio er mwyn lleihau faint o waith sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r hysbysiad;

(g) amrywio hysbysiad er mwyn estyn yr amser i dalu unrhyw gosb ynddo.

Pennod 4

Cofrestr gyhoeddus

Cofrestr o gamau gorfodi

23.—(1) Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru sefydlu a chynnal cofrestr electronig ("cofrestr gyhoeddus") sy'n cynnwys manylion—

(a) unrhyw euogfarn am drosedd o dan reoliad 16 neu 17;

(b) unrhyw sancsiwn sifil a osodwyd o dan reoliad 19 pan fo—

(i) unrhyw apêl wedi ei gwaredu'n derfynol, neu

(ii) os nad oes apêl wedi bod, yr amser ar gyfer cyflwyno unrhyw apêl wedi dod i ben;

(c) unrhyw hysbysiad adennill cost gorfodaeth a gyflwynwyd o dan reoliad 20.

(2) Rhaid tynnu gwybodaeth sy'n ymwneud â sancsiynau sifil oddi ar y gofrestr gyhoeddus heb fod yn hwyrach na 4 blynedd ar ôl i'r wybodaeth gael ei mewnbynnu yn y gofrestr.

(3) Ni chaniateir cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos troseddol, neu unrhyw beth sy'n destun achos troseddol, yn y gofrestr gyhoeddus cyn i'r achos hwnnw gael ei waredu'n derfynol.

(4) Ym mharagraff (3), mae "achos troseddol" yn cynnwys achos troseddol arfaethedig.

(5) Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru—

(a) mewnbynnu gwybodaeth o dan baragraff (1) yn y gofrestr gyhoeddus cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi ddod i feddiant Cyfoeth Naturiol Cymru,

(b) rhoi'r gofrestr gyhoeddus ar gael i aelodau o'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol, yn rhad ac am ddim, ac

(c) caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gael copïau o gofnodion yn y gofrestr gyhoeddus ar ôl talu ffi resymol.

(6) Caniateir cadw'r gofrestr gyhoeddus ar unrhyw ffurf ond rhaid ei mynegeio neu ei threfnu fel y gall aelodau o'r cyhoedd olrhain gwybodaeth a gynhwysir ynddi yn rhwydd.

Euogfarnau wedi eu disbyddu gan unigolion

24. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru dynnu manylion unrhyw euogfarn oddi ar y gofrestr gyhoeddus unwaith y bydd y cyfnod adsefydlu ar gyfer dedfryd wedi dod i ben o dan adran 5 o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974(**9**) (cyfnodau adsefydlu ar gyfer dedfrydau penodol) fel y mae'n gymwys yng Nghymru.

RHAN 6

Apelau

Y weithdrefn ar apêl

25.—(1) Rhaid i berson sy'n dymuno apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf o dan reoliadau 19 ac 20 apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009(**10**) ("Rheolau 2009"), ac mae Rheolau 2009 yn gymwys i'r apêl, yn ddarostyngedig i'r addasiad ym mharagraff (2).

(2) Mae rheol 22 o Reolau 2009 yn gymwys i apêl a ddygir o dan y Rheoliadau hyn fel pe bai rheol 22(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad o apêl ddod i law'r Tribiwnlys o fewn 2 fis i'r dyddiad yr anfonwyd hysbysiad o'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef at yr apelydd.

(3) Caiff Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, mewn perthynas â phenderfyniad i osod sancsiwn sifil o dan reoliad 19 neu â chyflwyno hysbysiad adennill cost gorfodaeth o dan reoliad 20, sy'n destun yr apêl—

(a) diddymu'r penderfyniad, neu dynnu'r hysbysiad yn ôl (pa un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(b) cadarnhau'r penderfyniad neu'r hysbysiad (pa un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(c) amrywio'r penderfyniad neu'r hysbysiad (pa un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(d) anfon y penderfyniad yn ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Statws wrth aros am apêl

26. Mae unrhyw—

(a) sancsiwn sifil a osodir o dan reoliad 19 (heblaw hysbysiad cydymffurfio), neu

(b) hysbysiad adennill cost gorfodaeth a ddyroddir o dan reoliad 20,

sy'n destun apêl yn cael ei atal dros dro hyd nes bod yr apêl wedi ei dyfarnu neu ei thynnu'n ôl.

(**9**) 1974 p. 53. Diwygiwyd adran 5 gan adran 139(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (p. 10); mae offerynnau eraill sy'n diwygio adran 5 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**10**) O.S. 2009/1976, a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/43, 2010/2653, 2011/651, 2012/500, 2013/477, 2014/2128, 2015/2059, 2017/1168, 2018/1053, 2019/758, 2019/828, 2019/925, 2020/416, 2020/651, 2020/1637, 2021/322, 2021/1183, 2022/1030, 2024/364 a 2025/561.

Dyfarnu apelau

27. Pan fo Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, yn dilyn apêl o dan reoliad 25, yn dyfarnu bod penderfyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gael ei anfon yn ôl i'w ailystyried, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru—

(a) cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir iddo gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, a

(b) cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddyfarniad Tribiwnlys yr Haen Gyntaf.

RHAN 7

Darpariaeth atodol

Mynediad at wybodaeth

28. Rhaid i'r person dynodedig ganiatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru gael mynediad at wybodaeth yn y system tracio gwastraff yn ddigidol er mwyn hwyluso cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Rheoliadau hyn.

Rhannu gwybodaeth

29.—(1) Caniateir rhannu unrhyw wybodaeth a ddelir gan y person dynodedig neu Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Rheoliadau hyn â chorff a restrir ym mharagraff (2) at y dibenion a nodir ym mharagraff (3).

(2) Y cyrff yw—

(a) awdurdod cyfrifol;

(b) awdurdod cyhoeddus;

(c) awdurdod cymwys;

(d) gweinyddwr y cynllun.

(3) Y dibenion yw—

(a) ar gyfer awdurdod cyfrifol, swyddogaethau gorfodi sy'n ymwneud â thracio gwastraff yn electronig;

(b) ar gyfer awdurdod cyhoeddus, swyddogaethau sy'n ymwneud ag atal neu reoli gwastraff neu droseddu sy'n gysylltiedig â gwastraff;

(c) ar gyfer awdurdod cymwys, y dibenion gorfodi'r gyfraith;

(d) ar gyfer gweinyddwr y cynllun, swyddogaethau a roddir iddo gan Reoliadau 2024.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "awdurdod cyfrifol" ("*responsible authority*") yw—

(a) Cyfoeth Naturiol Cymru;

(b) Asiantaeth yr Amgylchedd;

(c) Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban;

(d) yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon;

mae i “awdurdod cyhoeddus” yr un ystyr â “public authority” yn adran 7(1) o Ddeddf 2018(**11**);

mae i “awdurdod cymwys” yr un ystyr â “competent authority” yn adran 30(1) o Ddeddf 2018;

ystyr “Deddf 2018” (“*the 2018 Act*”) yw Deddf Diogelu Data 2018(**12**);

mae i “y dibenion gorfodi’r gyfraith” yr un ystyr â “the law enforcement purposes” yn adran 31 o Ddeddf 2018;

ystyr “gweinyddwr y cynllun” (“*the scheme administrator*”) yw’r person a benodir o dan reoliad 58 o Reoliadau 2024;

ystyr “Rheoliadau 2024” (“*the 2024 Regulations*”) yw Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) 2024(**13**).

Huw Irranca-Davies
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2026

(**11**) Diwygiwyd adran 7(1) gan O.S. 2019/419.
(**12**) 2018 p. 12.
(**13**) O.S. 2024/1332, a ddiwygiwyd gan O.S. 2025/1361.

ATODLENNI

ATODLEN 1

Rheoliadau 4 ac 8

Gwybodaeth benodedig

RHAN 1

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “cod gwastraff” (“*waste code*”) mewn perthynas â gwastraff a reolir o ddisgrifiad penodol yw’r cod chwe digid a roddir i’r disgrifiad hwnnw yn y rhestr wastraff;

ystyr “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar wastraff, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/851, ac fel y’i darllenir yn unol ag adran 75A o Ddeddf 1990;

ystyr “Penderfyniad y Rhestr Wastraffoedd” (“*List of Wastes Decision*”) yw Penderfyniad y Comisiwn dyddiedig 3 Mai 2000 sy’n disodli Penderfyniad 94/3/EC sy’n sefydlu rhestr o wastraffoedd yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC sy’n sefydlu rhestr o wastraff peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus(**14**);

ystyr “y Rheoliad POPs” (“*the POPs Regulation*”) yw Rheoliad (EU) 2019/1021 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar lygryddion organig parhaus(**15**);

ystyr “Rheoliadau 2011” (“*the 2011 Regulations*”) yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011(**16**);

ystyr “Rheoliadau 2018” (“*the 2018 Regulations*”) yw Rheoliadau Awdurdodiadau Amgylcheddol (Yr Alban) 2018(**17**);

ystyr “rhestr wastraff” (“*waste list*”) yw’r rhestr o wastraff a gynhwysir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd.

RHAN 2

Gwybodaeth benodedig

2. Yn y Rhan hon—

(**14**) EUDN 2000/532/EC, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1540.
(**15**) EUR 2019/1021, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1358, 2025/82 a 2025/296.
(**16**) O.S. 2011/988; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2013/755 a 2014/656.
(**17**) O.S.A. 2018/219, a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2025/165; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

ystyr “rhif awdurdodiad cludwr” (“*transporter authorisation number*”) yw’r rhif unigryw ar gofrestriad a roddir neu a drosglwyddir i berson o dan Reoliadau 2018, sy’n awdurdodi casglu a chludo gwastraff a reolir ar sail broffesiynol;

ystyr “rhif cofrestriad cludwr” (“*carrier registration number*”) yw’r rhif unigryw ar y dystysgrif gofrestru a ddyroddir i berson sydd wedi ei gofrestru’n gludwr gwastraff a reolir o dan Reoliadau 2011.

Gweithredwr cyfleuster trwyddedig

3.—(1) Mae’r manylion a ganlyn yn ofynnol mewn cysylltiad â’r gweithredwr—

(a) enw,

(b) cyfeiriad e-bost a rhif ffôn,

(c) rhif trwydded amgylcheddol, a

(d) rhif cyfeirnod lleoliad offer symudol, os—

(i) yw’r cyfleuster trwyddedig yn offer symudol, a

(ii) yw un o amodau’r drwydded amgylcheddol ar gyfer yr offer symudol yn ei gwneud yn ofynnol i leoliad yr offer hynny gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr “rhif trwydded amgylcheddol” (“*environmental permit number*”) yw’r rhif unigryw ar y drwydded amgylcheddol a roddir i weithredwr cyfleuster trwyddedig o dan Reoliadau 2016;

ystyr “rhif cyfeirnod lleoliad offer symudol” (“*deployment reference number*”) yw’r rhif unigryw a roddir yn y gymeradwyaeth ar gyfer lleoliad offer symudol o dan Reoliadau 2016;

mae i “offer symudol” yr ystyr a roddir i “mobile plant” yn adran 29(9) o Ddeddf 1990.

Y cyfleuster trwyddedig

4. Cyfeiriad y cyfleuster trwyddedig ac os offer symudol ydyw, y cyfeiriad a roddir yn y gymeradwyaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 3(1)(d) fel safle lleoliad yr offer symudol.

5. Y dyddiad a’r amser y daeth y gwastraff a reolir i law yn y cyfleuster trwyddedig.

Cludwr y gwastraff

6. Mae’r manylion a ganlyn yn ofynnol mewn cysylltiad â’r person a gludodd y gwastraff a reolir i’r cyfleuster trwyddedig—

(a) cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, a

(b) rhif cofrestriad cludwr neu rif awdurdodiad cludwr.

7. Os nad oes rhif cofrestriad cludwr neu rif awdurdodiad cludwr gan y person sy’n cludo’r gwastraff a reolir, y rheswm pam nad oes rhif o’r fath ganddo.

8. Os gwastraff a reolir sy’n beryglus yw’r gwastraff a gludir, y cod ar gyfer y nodyn traddodi a deithiodd gyda’r gwastraff neu, os nad oes nodyn traddodi, y rheswm pam nad oes nodyn o’r fath.

Y brocer neu’r deliwr

9.—(1) Pan fo trefniadau ar gyfer cludo’r gwastraff a reolir i’r cyfleuster trwyddedig wedi eu gwneud gan berson (“X”) ar ran person arall (“Y”)—

(a) enw a chyfeiriad person X a chyfeiriad e-bost a rhif ffôn y person hwnnw;

(b) mewn perthynas â pherson X, ei—

(i) rhif cofrestriad brocer neu ddeliwr, neu

(ii) rhif awdurdodiad brocer neu ddeliwr.

(2) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "rhif cofrestriad brocer neu ddeliwr" yw'r rhif sy'n gysylltiedig â'r cofrestriad a ddyroddir i berson sydd wedi ei gofrestru'n frocer gwastraff a reolir neu'n ddeliwr gwastraff a reolir o dan Reoliadau 2011;

(b) ystyr "rhif awdurdodiad brocer neu ddeliwr" yw'r rhif sy'n gysylltiedig â'r awdurdodiad a ddyroddir i berson sydd wedi ei awdurdodi i weithredu fel brocer neu ddeliwr o dan Reoliadau 2018.

Dull cludo

10. Y dull cludo a ddefnyddiwyd i gludo'r gwastraff a reolir (er enghraifft, ffordd, rheilffordd, môr, awyr, dyfrffordd fewndirol neu bibell).

11. Os ffordd yw un o'r dulliau cludo a gofnodir o dan baragraff 10, rhif cofrestru'r cerbyd ar gyfer pob cerbyd a ddefnyddiwyd.

Disgrifiad o'r gwastraff

12. Disgrifiad o'r gwastraff a reolir.

Codau gwastraff

13. Y cod gwastraff perthnasol ar gyfer y gwastraff a reolir.

14.—(1) Ar gyfer pob cod gwastraff a gofnodir o dan baragraff 13—

(a) cyfanswm pwysau'r gwastraff a reolir a gofnodir o dan y cod gwastraff hwnnw, gan gynnwys—

(i) yr uned fesur a ddefnyddir, a

(ii) pa un a yw'r pwysau yn amcangyfrifedig neu'n wirioneddol,

(b) y cod D neu'r cod R (neu'r ddau) ar gyfer y gweithrediad gwastraff sydd i'w gymhwyso i'r gwastraff a reolir a gofnodir o dan y cod gwastraff hwnnw,

(c) pwysau'r gwastraff a reolir y mae'r cod D neu'r cod R yn cael ei gymhwyso iddo, gan gynnwys—

(i) yr uned fesur a ddefnyddir, a

(ii) pa un a yw'r pwysau yn amcangyfrifedig neu'n wirioneddol, a

(d) y math o gynwysyddion a nifer y cynwysyddion a ddefnyddir i gynnwys y gwastraff a reolir a gofnodir o dan y cod gwastraff hwnnw.

(2) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "cod D" yw'r cod a restrir mewn trefn rifyddol yn Atodiad 1 (gweithrediadau gwaredu) i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff sy'n disgrifio'r gweithrediad gwastraff sydd i'w gymhwyso i wastraff a reolir;

(b) ystyr "cod R" yw'r cod a restrir mewn trefn rifyddol yn Atodiad 2 (gweithrediadau adfer) i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff sy'n disgrifio'r gweithrediad gwastraff sydd i'w gymhwyso i wastraff a reolir.

Nodweddion peryglus

15.—(1) Os yw'r gwastraff a reolir—

(a) yn meddu ar un neu ragor o'r nodweddion peryglus a restrir yn Atodiad 3 (nodweddion gwastraff sy'n ei wneud yn beryglus) i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, neu

(b) yn cynnwys un neu ragor o'r sylweddau a ganlyn, a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodiad 4 i'r Rheoliad POPs, mewn terfynau crynodiad sy'n fwy na'r terfynau crynodiad a bennir ar gyfer y sylweddau hynny yn y cofnod cyfatebol ym mhedwaredd golofn y tabl—

(i) deubenso-p-deuocsinau polyclorinedig a deubensoffwrans polyclorinedig (PCDD/PCDF);

(ii) DDT (1,1,1-tricloro-2,2-bis (4-cloroffenyl)ethan);

(iii) clordan;

(iv) hecsacloroseiclohecsanau, gan gynnwys lindan;

(v) dieldrin;

(vi) endrin;

(vii) heptaclor;

(viii) hecsaclorobensen;

(ix) clordecon;

(x) aldrin;

(xi) pentaclorobensen;

(xii) biffenylau polyclorinedig (PCB)

(xiii) mirecs;

(xiv) tocsaffen;

(xv) hecsabromobiffenyl.

(2) Pan fo'r gwastraff a reolir yn dod o fewn—

(a) paragraff 15(1)(a)—

(i) y cod HP perthnasol ar gyfer y gwastraff, a

(ii) y cyfansoddion cemegol neu fiolegol a'r gwerthoedd crynodiad sy'n ymwneud â phob nodwedd beryglus y mae pob cod HP yn cyfateb iddi;

(b) paragraff 15(1)(b)—

(i) y llythrennau "POP", a

(ii) y cyfansoddion cemegol neu fiolegol a'r gwerthoedd crynodiad sy'n ymwneud â phob sylwedd sy'n dod o fewn paragraff (1)(b).

(3) Os na ellir darparu unrhyw un neu ragor o'r canlynol, y rheswm pam na ellir gwneud hynny—

(a) y cod HP,

(b) y llythrennau "POP", neu

(c) y cyfansoddion cemegol neu fiolegol a'r gwerthoedd crynodiad.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "cod HP" yw un o'r codau (HP 1 i HP 15) yn Atodiad 3 i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (nodweddion gwastraff sy'n ei wneud yn beryglus).

Llygryddion organig parhaus

16.—(1) Os yw'r gwastraff a reolir yn cynnwys unrhyw un neu ragor o'r sylweddau a restrir yn Atodiad 4 i'r Rheoliad POPs, enw'r sylwedd a'r crynodiad (pa un a ydynt eisoes wedi eu cofnodi at ddibenion paragraff 15 ai peidio).

(2) Os nad yw enw'r sylwedd na'r crynodiad wedi ei ddarparu, y rheswm pam nad yw wedi ei ddarparu.

Ffurf ffisegol y gwastraff

17. Y ffurf ffisegol sy'n disgrifio'r gwastraff a reolir orau—

(a) nwy,

(b) hylif,

(c) solet,

(d) powdr,

(e) slwtsh, neu

(f) cymysg.

Ymdrin â gwastraff

18. Unrhyw ofynion arbennig o ran ymdrin â gwastraff a reolir, pan fo'n gymwys.

ATODLEN 2

Rheoliad 19

Sancsiynau sifil

RHAN 1

Cosbau ariannol penodedig

Swm cosb ariannol benodedig

1.—(1) Swm cosb ariannol benodedig o dan y Rheoliadau hyn yw £1,000.

(2) Ni chaniateir gosod cosb ariannol benodedig ar berson ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anweithred, oni bai bod y weithred neu'r anweithred yn weithred neu'n anweithred sy'n parhau.

Hysbysiad o fwriad i osod cosb ariannol benodedig

2.—(1) Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig gosod cosb ariannol benodedig ar berson, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a gynigir ("hysbysiad o fwriad").

(2) Rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys—

(a) y sail dros y cynnig i osod y gosb ariannol benodedig;

(b) swm y gosb;

(c) gwybodaeth am—

(i) yr hawl i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r hysbysiad o fwriad i law ("y cyfnod o 28 o ddiwrnodau");

(ii) yr amgylchiadau pan na chaiff Cyfoeth Naturiol Cymru osod y gosb.

Cyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau

3. Caiff person y cyflwynir hysbysiad o fwriad iddo, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r cynnig i osod y gosb ariannol benodedig.

Hysbysiad terfynol o benderfyniad i osod cosb ariannol benodedig

4.—(1) Os nad yw'r person a gafodd hysbysiad o fwriad yn ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau drwy dalu'r swm a bennir ym mharagraff 1(1) i Cyfoeth Naturiol Cymru, caiff Cyfoeth Naturiol Cymru, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, gyflwyno hysbysiad terfynol ("hysbysiad terfynol") yn gosod cosb ariannol benodedig.

(2) Pan fo'r toriad y mae'r hysbysiad o fwriad yn ymwneud ag ef yn drosedd, ni chaiff Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno hysbysiad terfynol i'r person os yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd na fyddai'r person, oherwydd unrhyw amddiffyniad, yn agored i gael ei euogfarnu am y drosedd honno.

Cynnwys hysbysiad terfynol

5.—(1) Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu gosod cosb ariannol benodedig, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad yn ei gosod ("hysbysiad terfynol").

(2) Rhaid i hysbysiad terfynol gynnwys gwybodaeth am—

(a) y sail dros osod y gosb,

(b) swm y gosb,

(c) sut y mae taliad i'w wneud,

(d) y cyfnod y mae rhaid talu ynddo, na chaiff fod yn llai na 2 fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad terfynol,

(e) manylion cosbau am dalu'n hwyr,

(f) yr hawl i apelio, ac

(g) canlyniadau peidio â thalu.

Apelio yn erbyn hysbysiad terfynol

6.—(1) Caiff y person sy'n cael hysbysiad terfynol apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol.

Peidio â thalu ar ôl 2 fis

7.—(1) Rhaid talu'r gosb o fewn 2 fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad terfynol.

(2) Os na thelir y gosb o fewn 2 fis, cynyddir swm y gosb 50%.

(3) Yn achos apêl—

(a) rhaid talu'r gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad dyfarnu'r apêl os yw'r apêl yn aflwyddiannus, neu'r dyddiad y tynnir yr apêl yn ôl, a

(b) os na thelir y gosb o fewn 28 o ddiwrnodau, cynyddir swm y gosb 50%.

Achosion troseddol

8.—(1) Os cyflwynir hysbysiad o fwriad i osod cosb ariannol benodedig i unrhyw berson mewn perthynas â thoriad sy'n drosedd ("y drosedd gysylltiedig"), ni chaniateir cychwyn achos troseddol yn erbyn y person hwnnw mewn cysylltiad â'r drosedd gysylltiedig cyn i 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o fwriad ddod i ben.

(2) Os yw person yn talu cosb ariannol benodedig neu'n ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am gosb ariannol benodedig o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o fwriad, ni chaniateir euogfarnu'r person hwnnw am y drosedd gysylltiedig, oni bai bod y toriad yn weithred neu'n anweithred sy'n parhau.

RHAN 2

Cosbau ariannol amrywiadwy

Pŵer i osod cosb ariannol amrywiadwy

9.—(1) Ni chaniateir gosod cosb ariannol amrywiadwy ar berson ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anweithred, oni bai bod y weithred neu'r anweithred yn weithred neu'n anweithred sy'n parhau.

(2) Cyn cyflwyno hysbysiad sy'n ymwneud â chosb ariannol amrywiadwy i berson, caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth honno sy'n rhesymol i gadarnhau unrhyw fudd (ariannol neu fel arall) sy'n deillio o'r toriad.

(3) Wrth ddyfarnu swm cosb ariannol amrywiadwy, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y ffactorau a ganlyn—

(a) effaith amgylcheddol neu effaith amgylcheddol bosibl y toriad;

(b) unrhyw fudd sy'n deillio o'r toriad;

(c) beiusrwydd y person;

(d) hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio.

Hysbysiad o fwriad i osod cosb ariannol amrywiadwy

10.—(1) Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig gosod cosb ariannol amrywiadwy ar berson, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a gynigir ("hysbysiad o fwriad").

(2) Rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys—

(a) y sail dros y cynnig i osod y gosb ariannol amrywiadwy;

(b) swm y gosb;

(c) gwybodaeth am—

(i) yr hawl i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r hysbysiad o fwriad i law ("y cyfnod o 28 o ddiwrnodau");

(ii) yr amgylchiadau pan na chaiff Cyfoeth Naturiol Cymru osod y gosb.

Cyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau

11. Caiff person y cyflwynir hysbysiad o fwriad iddo, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r cynnig i osod y gosb ariannol amrywiadwy.

Hysbysiad terfynol o benderfyniad i osod cosb ariannol amrywiadwy

12.—(1) Os nad yw'r person a gafodd hysbysiad o fwriad yn ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau drwy dalu'r gosb a bennir yn yr hysbysiad o fwriad, caiff Cyfoeth Naturiol Cymru, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a gyflwynwyd o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, benderfynu ai i osod y gosb ariannol amrywiadwy yn yr hysbysiad o fwriad, gydag addasiadau neu hebddynt.

(2) Pan fo'r toriad y mae'r hysbysiad o fwriad yn ymwneud ag ef yn drosedd, ni chaiff Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno hysbysiad terfynol i'r person os yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd na fyddai'r person, oherwydd unrhyw amddiffyniad, yn agored i gael ei euogfarnu am y drosedd honno.

Cynnwys hysbysiad terfynol

13.—(1) Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu gosod cosb ariannol amrywiadwy, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad yn ei gosod ("hysbysiad terfynol").

(2) Rhaid i hysbysiad terfynol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) y sail dros osod y gosb,

(b) swm y gosb,

(c) sut y mae taliad i'w wneud,

(d) y cyfnod y mae rhaid talu ynddo, na chaiff fod yn llai na 2 fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad terfynol,

(e) yr hawl i apelio, ac

(f) canlyniadau peidio â thalu.

Apelio yn erbyn hysbysiad terfynol

14.—(1) Caiff y person sy'n cael hysbysiad terfynol apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod swm y gosb yn afresymol;

(d) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall.

(3) Pan wneir apêl yn erbyn dyroddi hysbysiad terfynol, rhaid talu'r gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad dyfarnu'r apêl os yw'r apêl yn aflwyddiannus, neu'r dyddiad y tynnir yr apêl yn ôl.

Achosion troseddol

15.—(1) Os cyflwynir hysbysiad o fwriad i osod cosb ariannol amrywiadwy i unrhyw berson mewn perthynas â thoriad sy'n drosedd ("y drosedd gysylltiedig"), ni chaniateir cychwyn achos troseddol yn erbyn y person hwnnw mewn cysylltiad â'r drosedd

gysylltiedig cyn i 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o fwriad ddod i ben.

(2) Os yw person yn talu cosb ariannol amrywiadwy neu'n ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am gosb ariannol amrywiadwy o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o fwriad, ni chaniateir euogfarnu'r person hwnnw am y drosedd gysylltiedig, oni bai bod y toriad yn weithred neu'n anweithred sy'n parhau.

RHAN 3

Hysbysiadau cydymffurfio

Dyroddi hysbysiad cydymffurfio

16.—(1) Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy hysbysiad ("hysbysiad cydymffurfio") ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd y camau hynny a bennir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Ni chaniateir gosod hysbysiad cydymffurfio ar berson ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un toriad o'r Rheoliadau hyn, oni bai bod y toriad yn weithred neu'n anweithred sy'n parhau.

(3) Nid yw is-baragraff (2) yn atal gosod hysbysiad cydymffurfio arall ar berson o dan y paragraff hwn os yw unrhyw hysbysiad cydymffurfio cynharach a osodwyd ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un weithred neu anweithred wedi ei dynnu'n ôl yn gyntaf.

(4) Pan fo toriad o ofyniad yn drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ni chaiff Cyfoeth Naturiol Cymru osod hysbysiad cydymffurfio ar berson am dorri'r gofyniad hwnnw os yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd na fyddai'r person, oherwydd unrhyw amddiffyniad, yn agored i gael ei euogfarnu am drosedd.

Cynnwys hysbysiad cydymffurfio

17. Rhaid i hysbysiad cydymffurfio gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) y sail dros osod yr hysbysiad,

(b) pa gamau y mae rhaid i'r person sy'n cael yr hysbysiad eu cymryd a'r cyfnod y mae rhaid cwblhau'r camau hynny ynddo,

(c) yr hawl i apelio, a

(d) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Apelio yn erbyn hysbysiad cydymffurfio

18.—(1) Caiff person sy'n cael hysbysiad cydymffurfio apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod natur y gofyniad yn afresymol;

(d) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall.

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 105

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Digital Waste Tracking (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which apply in Wales, establish a digital waste tracking system. They are made under powers conferred by section 34CA and 34CB of the Environmental Protection Act 1990 (c. 43) ("the 1990 Act"). The 1990 Act allows the Welsh Ministers to establish, in Wales, a digital waste tracking system, the purpose of which is to track controlled waste.

Controlled waste is household, industrial or commercial waste and has the meaning given in section 75(4) to (8) of the 1990 Act.

Part 2 and Schedule 1 contain provisions relating to the establishment of the digital waste tracking system in Wales and requirements for operators of a permitted facility to enter information into the digital waste tracking system and to pay an annual fee. That Part also makes provision for outages (when information cannot be entered into the digital waste tracking system).

Part 3 contains provisions relating to digitally excluded persons, including alternative requirements for recording information that would otherwise be entered into the digital waste tracking system.

Part 4 contains provision about the functions of Natural Resources Wales.

Part 5 and Schedule 2 contain provisions relating to offences and civil sanctions.

Part 6 contains provisions relating to appeals.

Part 7 contains supplementary provisions including Natural Resources Wales' access to the digital waste tracking system and who information held under these Regulations may be shared with.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory

impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 105

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Digital Waste Tracking (Wales) Regulations 2026

Made	*26 March 2026*
Coming into force	*1 October 2026*

CONTENTS

PART 1
General
1. Title, coming into force, extent and application
2. Interpretation
PART 2
The Digital Waste Tracking System
3. Designated person and the digital waste tracking system
4. Entry of specified information into the digital waste tracking system by operator of a permitted facility
5. Digital waste tracking system fee
6. Outage preventing entry of specified information
7. Correction of digital waste record
PART 3
Digitally excluded persons
8. Written record of specified information by digitally excluded operator of a permitted facility
9. Application for digitally excluded operator number
10. Ceasing to be a digitally excluded person
11. List of digitally excluded persons
12. Retention and making available written records by digitally excluded operator
PART 4
Monitoring
13. Monitoring functions
14. Recording of information by Natural Resources Wales
PART 5
Offences and Civil Sanctions
Chapter 1
General
15. Interpretation
Chapter 2
Offences
16. Offences

17. Offences: supplementary
18. Penalties for offences

Chapter 3

Civil Sanctions

19. Civil sanctions
20. Enforcement cost recovery notices
21. Payment of penalties into Welsh Consolidated Fund
22. Withdrawing or amending a notice

Chapter 4

Public register

23. Register of enforcement action
24. Spent convictions of individuals

PART 6

Appeals

25. Procedure on appeal
26. Status pending appeal
27. Determination of appeals

PART 7

Supplementary

28. Access to information
29. Information sharing

SCHEDULES

Schedule 1 — Specified information
Part 1 — Interpretation
Part 2 — Specified information
Schedule 2 — Civil sanctions
PART 1 — Fixed monetary penalties
PART 2 — Variable monetary penalties
PART 3 — Compliance notices

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 34CA(1), (2), (4), (6), (7), (8), (9) and (10) and 34CB(1), (2), (3), (5), (6) and (7) of the Environmental Protection Act 1990(**1**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 160A(5)(b) of that Act, a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

(**1**) 1990 c. 43. Sections 34CA and 34CB were inserted by section 58(2) of the Environment Act 2021 (c. 30).

PART 1

General

Title, coming into force, extent and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Digital Waste Tracking (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 October 2026.

(3) These Regulations—

(a) extend to England and Wales;

(b) apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Environmental Protection Act 1990;

"the 2005 Regulations" ("*Rheoliadau 2005*") means the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(**2**);

"the 2016 Regulations" ("*Rheoliadau 2016*") means the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016(**3**);

"approved software" ("*meddalwedd a gymeradwywyd*") means software that has been approved by the designated person under regulation 3(3);

"consignment note" ("*nodyn traddodi*") means the document set out in Schedule 4(**4**) (form of consignment note) to the 2005 Regulations;

"controlled waste" ("*gwastraff a reolir*") has the meaning given in section 75(4) of the 1990 Act;

"designated person" ("*person dynodedig*") means the Welsh Ministers;

"digital waste record" ("*cofnod digidol o wastraff*") means an electronic record that is created using approved software;

"digital waste record number" ("*rhif cofnod digidol o wastraff*") means a unique identifying number assigned to a digital waste record;

"digital waste tracking system" ("*system tracio gwastraff yn ddigidol*") has the meaning given in regulation 3(2);

"digital waste tracking system fee" ("*ffi'r system tracio gwastraff yn ddigidol*") means the annual fee payable under regulation 5;

(**2**) S.I. 2005/1806 (W. 138), amended by S.I. 2011/971 (W. 141); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

(**3**) S.I. 2016/1154, amended by S.I. 2018/110; there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

(**4**) The form in Schedule 4 was substituted by S.I. 2011/971 (W. 141).

"digitally excluded operator number" ("*rhif gweithredwr sydd wedi ei allgáu'n ddigidol*") means the unique identifying number assigned to a digitally excluded operator by—

(a) Natural Resources Wales under regulation 9(2)(a),

(b) the Environment Agency under any provision made by the Secretary of State under section 34CA(6) of the 1990 Act,

(c) the Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs in Northern Ireland under any provision made by that Department under article 5G(6) of the Waste and Contaminated Land (Northern Ireland) Order 1997(**5**), or

(d) the Scottish Environment Protection Agency under any provision made by the Scottish Ministers under section 34CA(6) of the 1990 Act;

"digitally excluded person" ("*person sydd wedi ei allgáu'n ddigidol*") means a person—

(a) who is a practising member of a religious society or order whose beliefs are incompatible with using electronic communications or keeping electronic records, or

(b) for whom it is not reasonably practicable to use electronic communications or to keep electronic records for any reason (including age, disability or location);

"end of the quarter" ("*diwedd y chwarter*") means one of the following days, being the end of a quarter—

(a) 31 March,

(b) 30 June,

(c) 30 September, or

(d) 31 December;

"enforcement cost recovery notice" ("*hysbysiad adennill cost gorfodaeth*") has the meaning given in regulation 20(1);

"environmental permit" ("*trwydded amgylcheddol*") has the meaning given in regulation 13(1) of the 2016 Regulations;

"hazardous controlled waste" ("*gwastraff a reolir sy'n beryglus*") means controlled waste that is also hazardous waste;

"hazardous waste" ("*gwastraff peryglus*") has the meaning given in section 75(8B) of the 1990 Act(**6**);

"household waste" ("*gwastraff cartrefi*") has the meaning given in section 75(5) of the 1990 Act;

"operator of a permitted facility" ("*gweithredwr cyfleuster trwyddedig*") means the person who is authorised under an environmental permit to operate a permitted facility;

"permitted facility" ("*cyfleuster trwyddedig*") means a regulated facility where a waste operation is carried out;

(**5**) S.I. 1997/2778 (N.I. 19). Article 5G was inserted by section 59(2) of the Environment Act 2021 (c. 30).
(**6**) Subsection (8B) was inserted into the 1990 Act by section 60(3) of the Environment Act 2021 (c. 30).

"quarter" ("*chwarter*") means any period of 3 months ending on 31 March, 30 June, 30 September or 31 December;

"regulated facility" ("*cyfleuster rheoleiddiedig*") has the meaning given in regulation 8 of the 2016 Regulations;

"specified information" ("*gwybodaeth benodedig*") has the meaning given in regulation 4(5)(a);

"specified steps" ("*camau penodedig*") has the meaning given in regulation 4(4);

"waste disposal authority" ("*awdurdod gwaredu gwastraff*") means, for any county or county borough in Wales, the council of the county or county borough;

"waste operation" ("*gweithrediad gwastraff*") has the meaning given in regulation 2(1) of the 2016 Regulations.

PART 2

The Digital Waste Tracking System

Designated person and the digital waste tracking system

3.—(1) The Welsh Ministers ("the designated person") are designated for the purposes of section 34CA(7) of the 1990 Act.

(2) The designated person must establish, maintain and operate an electronic system to track controlled waste ("the digital waste tracking system").

(3) The designated person's functions in relation to the digital waste tracking system include (but are not limited to) the approval of software.

(4) The designated person must ensure that—

(a) a digital waste record number is assigned to a digital waste record when specified information in the digital waste record is entered into the digital waste tracking system, and

(b) the digital waste record number is sent to the operator of a permitted facility who recorded the specified information in the digital waste record as soon as possible after the digital waste record number is assigned.

(5) The designated person may withhold entry of the specified information onto the digital waste tracking system if the digital waste tracking system fee has not been paid.

Entry of specified information into the digital waste tracking system by operator of a permitted facility

4.—(1) This regulation applies when the operator of a permitted facility receives controlled waste at a permitted facility.

(2) This regulation does not apply if the permitted facility is a place provided under arrangements made by a waste disposal authority under section 51(1)(b)(**7**) of the 1990 Act and—

(**7**) Section 51(1) was amended by Part 4 of Schedule 5 to the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (c. 16).

(a) household waste is deposited by a person resident in the waste disposal authority's area(**8**), or

(b) the permitted facility is available for the deposit of household or other controlled waste by other persons under section 51(3) of the 1990 Act.

(3) The operator of a permitted facility must pay the digital waste tracking system fee under regulation 5.

(4) The operator of a permitted facility must take the specified steps set out in paragraph (5) for each load of controlled waste received at the permitted facility by the deadline set out in paragraph (9).

(5) The specified steps are to—

(a) record in a digital waste record the information specified in Part 2 of Schedule 1 ("specified information"), and

(b) check that the specified information in the digital waste record has been entered into the digital waste tracking system.

(6) The requirement to check in paragraph 5(b) is satisfied if the operator receives the digital waste record number under regulation 3(4)(b).

(7) The requirement to check in paragraph 5(b) is not satisfied if the operator has not received the digital waste record number due to a failure by the operator to—

(a) pay the digital waste tracking system fee, or

(b) having received a digital message indicating an error, investigate and correct any error with the digital waste record or any error or omission in the specified information recorded in that digital waste record.

(8) In paragraph (4)—

(a) where the controlled waste consists of hazardous controlled waste accompanied by more than one consignment note completed under regulation 36 (standard procedure) of the 2005 Regulations, the hazardous controlled waste to which each consignment note relates is to be treated as one load;

(b) where the controlled waste consists of hazardous controlled waste delivered to the permitted facility by pipeline under a consignment note completed under regulation 41 (removal of wastes by pipeline) of the 2005 Regulations, the hazardous controlled waste to which each consignment note relates is to be treated as one load.

(9) The operator of a permitted facility must take all reasonable steps to ensure completion of the specified steps by the end of the second working day after the day on which the load of controlled waste or hazardous controlled waste is received by the operator.

(10) But where the load of hazardous controlled waste is delivered by pipeline, the day of receipt is—

(a) if the load is piped over the course of more than one day, the day on which the last of the piped load is received;

(b) if the load is piped continuously—

(i) the day recorded in the consignment note relating to that load as the end of the quarter, or

---

(**8**) A waste disposal authority's area is the area of the local authority making up that waste disposal authority. Maps of local authority boundaries can be found on the Office for National Statistics (ONS) Open Geography Portal website at https://geoportal.statistics.gov.uk/search?q=Administrative%20Maps.

(ii) where the piping stops before the day recorded in the consignment note relating to that load as the end of the quarter, the day on which the piping stops.

Digital waste tracking system fee

5.—(1) The digital waste tracking system fee is £26.

(2) The fee must be paid to the designated person when the obligation to comply with the specified steps under regulation 4(4) first arises and then annually, on the anniversary of the obligation first arising, for each subsequent year in which the operator is required to comply with the obligation in regulation 4(4).

Outage preventing entry of specified information

6.—(1) In the event of an outage, the operator of a permitted facility must follow the steps in paragraph (2).

(2) The steps are to—

(a) unless the operator has received an outage notification, notify Natural Resources Wales of the outage as soon as reasonably practicable;

(b) make a written record of the specified information by the deadline specified in regulation 4(9);

(c) within 7 days beginning with the day after the day on which the outage is resolved, enter the specified information recorded under sub-paragraph (b) into the digital waste tracking system in accordance with the specified steps.

(3) The operator of a permitted facility—

(a) may make the written record required under paragraph (2)(b) in electronic form if the operator is able to save the record in a manner that can be easily found and retrieved,

(b) must, until the step described in paragraph (2)(c) is completed—

(i) retain the written record made under paragraph (2)(b), and

(ii) if requested to do so, make the written record available to Natural Resources Wales as soon as reasonably practicable.

(4) In this regulation—

"outage"("*diffodiad*") means circumstances caused by factors beyond the operator of the permitted facility's control that prevent the entry of the specified information into the digital waste tracking system by the deadline specified in regulation 4(9);

"outage notification" ("*hysbysiad o ddiffodiad*") means a communication informing users of the digital waste tracking system that the system is unavailable.

Correction of digital waste record

7.—(1) This regulation applies where—

(a) the operator of a permitted facility has made an error in a digital waste record, and

(b) in consequence of such an error, incorrect information about controlled waste is entered into the digital waste tracking system.

(2) The operator of a permitted facility must ensure the correct information is entered into the digital waste tracking system in accordance with the specified steps as soon as

reasonably practicable and, in any event, within one month of the date on which the operator becomes aware of the error.

PART 3

Digitally excluded persons

Written record of specified information by digitally excluded operator of a permitted facility

8.—(1) This regulation applies when—

(a) the operator of a permitted facility is a digitally excluded person ("digitally excluded operator"), and

(b) the digitally excluded operator receives controlled waste at the permitted facility.

(2) Paragraph (1) does not apply if the permitted facility is a place provided under arrangements made by a waste disposal authority under section 51(1)(b) of the 1990 Act and—

(a) household waste is deposited by a person resident in the waste disposal authority's area, or

(b) the permitted facility is available for the deposit of household or other controlled waste by other persons under section 51(3) of the 1990 Act.

(3) The digitally excluded operator—

(a) is exempt from the requirements in regulations 4 to 7;

(b) must—

(i) make a written record of the specified information in respect of each load of controlled waste received at the permitted facility by the deadline set out in paragraph (5),

(ii) include in the written record their digitally excluded operator number, and

(iii) retain and make available the written record under regulation 12.

(4) In paragraph (3)(b)(i)—

(a) where the controlled waste consists of hazardous controlled waste that is accompanied by more than one consignment note completed under regulation 36 (standard procedure) of the 2005 Regulations, the hazardous controlled waste to which each consignment note relates is to be treated as one load;

(b) where the controlled waste consists of hazardous controlled waste delivered to the permitted facility by pipeline under a consignment note completed under regulation 41 (removal of wastes by pipeline) of the 2005 Regulations, the hazardous controlled waste to which each consignment note relates is to be treated as one load.

(5) In paragraph (3)(b)(i), the deadline for making the written record is 2 working days beginning with the day after the day on which the load of controlled waste or hazardous controlled waste is received by the digitally excluded operator.

(6) But where the load of hazardous controlled waste is delivered by pipeline, the day of receipt is—

(a) if the load is piped over the course of more than one day, the day on which the last of the piped load is received;

(b) if the load is piped continuously—

(i) the day recorded in the consignment note relating to that load as the end of the quarter, or

(ii) where the piping stops before the day recorded in the consignment note relating to that load as the end of the quarter, the day on which the piping stops.

Application for digitally excluded operator number

9.—(1) A digitally excluded operator whose principal place of business is in Wales must apply to Natural Resources Wales for a digitally excluded operator number.

(2) On receiving an application under paragraph (1), Natural Resources Wales must—

(a) assign the applicant a digitally excluded operator number, and

(b) inform the applicant of the digitally excluded operator number.

Ceasing to be a digitally excluded person

10.—(1) If a digitally excluded operator is assigned a digitally excluded operator number under regulation 9(2)(a) and ceases to be a digitally excluded person, that operator must give written notice of the fact to Natural Resources Wales.

(2) A notice under paragraph (1) must be given as soon as reasonably practicable after the operator ceases to be a digitally excluded person.

(3) An operator who gives notice—

(a) continues to be, for 28 days beginning with the date of the notice—

(i) exempt from the requirements in regulations 4 to 7, and

(ii) subject to the requirements in regulation 8(3)(b);

(b) after 28 days beginning with the date of the notice, is subject to the requirements in regulations 4 to 7.

List of digitally excluded persons

11. Natural Resources Wales must—

(a) maintain a list of digitally excluded operators to whom Natural Resources Wales has assigned a digitally excluded operator number under regulation 9(2)(a);

(b) as soon as reasonably practicable after the expiry of the 28 days referred to in regulation 10(3)(b), remove from the list any person who has ceased to be a digitally excluded person.

Retention and making available written records by digitally excluded operator

12. A digitally excluded operator must, in respect of a written record under regulation 8(3)(b)(i)—

(a) retain the written record for at least 3 years beginning with the date on which the record is made;

(b) if requested by Natural Resources Wales, provide the written record to Natural Resources Wales as soon as reasonably practicable.

PART 4

Monitoring

